**Hysbysiad preifa trwydd yng nghyswllt y ffurflen help i dalu ffioedd**

**Pwrpas**

Mae’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu’r safonau y gallwch eu disgwyl gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (GLlTEM) pan fyddwn yn prosesu gwybodaeth bersonol (‘data personol’) amdanoch chi yng nghyswllt ceisiadau am Help i Dalu Ffioedd; sut y gallwch gael copi o’ch data personol; a beth y gallwch ei wneud os ydych yn meddwl nad yw’r safonau yn cael eu bodloni.

Asiantaeth Weithredol i’r Weinyddiaeth Cyfiawnder (MoJ) yw GLlTEM. Y Weinyddiaeth yw’r rheolwr dros y data personol a gedwir, er y gall weithredu ar y cyd â GLlTEM. Mae GLlTEM yn casglu ac yn prosesu data personol er mwyn cyflawni ei swyddogaethau cyhoeddus a’i ddyletswyddau cyfreithiol ei hun hefyd.

Nid yw’r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i brosesu data personol a gesglir ac a reolir gan y llys/tribiwnlys a’u barnwyr wrth iddynt weithredu yn eu rôl farnwrol. Mae’r farnwriaeth yn annibynnol o’r Weinyddiaeth Cyfiawnder a GLITEM ac mae’r gyfraith ar ddiogelu data’n cael ei chymhwyso’n wahanol iddynt hwy felly. Am fwy o wybodaeth, gweler [www.judiciary.gov.uk/data-privacy-notices/data-privacy](www.judiciary.gov.uk/data-privacy-notices/data-privacy)

**Ynglŷn â data personol**

Ystyr data personol yw gwybodaeth sy’n ymwneud ag unigolyn byw y gellir ei adnabod o’r data hwnnw.

Nid yw’n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phobl sydd wedi marw, grwpiau neu gymunedau o bobl, sefydliadau na busnesau. Gall olygu eich enw, eich cyfeiriad neu eich rhif ffôn. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am eich rhywedd, eich amgylchiadau ariannol, eich cefndir diwylliannol neu eich statws cymdeithasol.

Gwyddom pa mor bwysig yw gwarchod preifatrwydd pob unigolyn sy’n ymwneud ag achosion llys a thribiwnlys, a chydymffurfio â deddfau diogelu data. Fe wnawn ni warchod eich data personol, a dim ond lle bo’n gyfreithlon gwneud hynny, neu gyda’ch cydsyniad chi, y gwnawn ni ei ddatgelu.

**Mathau o ddata personol a brosesir gennym**

Fyddwn ni ddim ond yn prosesu data personol sy’n berthnasol i gyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol ac i weinyddu cyfiawnder. Gall y mathau o ddata a gesglir yn y ffurflenni gynnwys: eich enw, eich cyfeiriad, eich manylion cyswllt, eich amgylchiadau economaidd, eich ethnigrwydd, eich credoau crefyddol, a manylion unrhyw bobl eraill, yn cynnwys plant.

Fel arfer cymerir y data personol yn uniongyrchol oddi wrthych chi neu rywun arall sydd wedi cynnwys eich data mewn cais y maen nhw wedi’i gwblhau.

**Pwrpas prosesu a'r sail gyfreithiol dros y prosesu**

O raid, byddwn yn prosesu data personol at bwrpas gweinyddu cyfiawnder a chefnogi'r farnwriaeth annibynnol i gynnal rheolaeth y gyfraith a sicrhau cyfiawnder, a hynny mewn modd diduedd, cyflym ac effeithlon. Mae prosesu'n angenrheidiol hefyd er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol.

Caiff data personol sydd ei angen ar gyfer y pwrpas hwn ei gasglu a'i ddal mewn ffurflenni llys a thribiwnlys. Caiff ei lwytho hefyd i gronfa ddata i gefnogi gweinyddiad cyfiawnder mewn achosion, cronfa ddata a ddefnyddir gan staff llys a thribiwnlys ar gyfer rheoli achosion ac i gasglu gwybodaeth safonol am hynt achos neu gais.

Mae'r ffurflenni tribiwnlys ar gael yma: [www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-llysoedd-a-thribiwnlysoedd](https://www.gov.uk/government/collections/ffurflenni-llysoedd-a-thribiwnlysoedd)

Defnyddir y ffurflenni'n gyffredinol i gychwyn achos neu i benderfynu ar gamau gweithredu o fewn achos sydd ar y gweill, ac mae'r wybodaeth a ddarperir yn galluogi'r llys neu dribiwnlys i sicrhau cyfiawnder a gwneud penderfyniadau pwysig. Fel yr eglurwyd uchod, caiff deddfau diogelu data eu cymhwyso'n wahanol i'r llys neu dribiwnlys pan gaiff data personol ei gasglu a'i ddefnyddio yn ystod yr achos.

Byddwn hefyd yn prosesu data personol a gymerwyd mewn achosion tribiwnlys ar gyfer dibenion ystadegol. Sicrheir bod y data personol yn ddienw cyn ei ddefnyddio i gynhyrchu ystadegau chwarterol am weithgaredd tribiwnlysoedd yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

Weithiau bydd GLlTEM yn defnyddio gwybodaeth cysylltu i ofyn i ddefnyddwyr llysoedd a thribiwnlysoedd a hoffent gwblhau arolwg gwasanaeth cwsmeriaid i fesur bodlonrwydd defnyddwyr a nodi mannau lle gellir gwella.

**Pan ofynnwn i chi am eich data personol byddwn yn:**

- addo dweud wrthych pam fod angen eich data personol arnom;
- gofyn am ddim ond y data personol y mae arnom ei angen, ac ni fyddwn yn casglu gwybodaeth sy'n amherthnasol neu'n ormodol;
- gwarchod y data gan sicrhau na chaiff neb ei weld heb awdurdod;
- rhannu'r data gyda chyrff eraill, ond dim ond lle bo hynny'n angenrheidiol a bod y gyfraith yn caniatáu hynny (gweler isod);
- sicrhau na fyddwn yn cadw'r data am fwy o amser nag sy'n rhaid.

Byddwch chi'n gallu:
- gofyn am weld eich data personol neu ofyn am ei gywiro;
- gwrthwynebu inni brosesu eich data personol neu ofyn am gyfyngiad ar y prosesu;
- gwneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth (gweler isod).

**Gyda phwy y gellir rhannu'r wybodaeth**

Wrth rannu data personol, byddwn yn cydymffurfio â phob agwedd ar y deddfau diogelu data. Gall y categorïau o sefydliadau y cawn ni rannu eich data personol, a gawsom o'r ffurflenni help i dalu ffioedd gynnwys asiantaethau sydd ar gontract gyda GLlTEM (e.e.

cyfieithwyr ar y pryd, canolwyr, asiantaethau trawsysgrifio neu gyfieithu), adrannau eraill o'r Llywodraeth, tribiwnlysoedd neu lysoedd ac awdurdodau cyhoeddus o fewn neu oddi allan i'r UE.

**Manylion trosglwyddo i drydedd wlad**

Weithiau gall fod angen trosglwyddo data personol i wledydd tramor er mwyn sefydlu, arfer neu amddiffyn hawliau cyfreithiol. Bydd y rhesymau dros y trosglwyddo a'r drydedd wlad sy'n cael y data bob amser yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos, ond bydd unrhyw drosglwyddiad o'r fath yn cydymffurfio'n llawn â phob agwedd ar y gyfraith (ystyr "trydedd wlad" yw gwlad y tu allan i'r UE).

I gael mwy o wybodaeth, gallwch gysylltu â ni drwy anfon e-bost i: privacy@justice.gov.uk

**Cyfnod cadw'r wybodaeth a gesglir**

Cyfarwyddir adrannau ac asiantaethau'r Llywodraeth a phob corff sector cyhoeddus i gadw pob dogfennaeth, gohebiaeth, nodiadau, negeseuon ebost a phob gwybodaeth arall (ym mha bynnag ffurf) sy'n cynnwys neu a allai gynnwys deunydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â cham-drin plant yn rhywiol neu â gwarchod a gofal plant. Mae'r gair "plant" yn cynnwys unrhyw unigolion dan 18 oed.

Pennir gwahanol gyfnodau ar gyfer cadw'r wybodaeth hon, yn dibynnu ar y math o achos rydych yn ymdrin ag ef. I gael gwybod beth yw'r cyfnodau cadw a chael gwybodaeth arall a all fod o ddefnydd ichi, gweler:
www.gov.uk/government/publications/record-retention-and-disposition-schedules

**Hawl i weld gwybodaeth bersonol**

Gallwch gael gwybod a ydym ni'n dal unrhyw ddata personol amdanoch chi drwy wneud 'cais gwrthrych am wybodaeth'. Gallwch wneud cais gwrthrych am wybodaeth drwy ysgrifennu at:

Y Tîm Datgelu
Pwynt Post 10.24
102 Petty France
Llundain
SW1H 9 AJ
E-bost i: data.access@Justice.gov.uk

**Gallwch gael mwy o fanylion am yr isod:**

- Cytundebau sydd gennym gyda sefydliadau eraill ar gyfer rhannu data personol;
- Amgylchiadau lle gallwn basio data personol ymlaen heb ddweud wrthych chi, er enghraifft, i helpu atal neu ddarganfod trosedd neu i gynhyrchu ystadegau dienw;
- Ein cyfarwyddiadau i staff ynghylch sut i gasglu, defnyddio neu ddileu eich data personol;
- Sut rydym yn sicrhau bod y data personol sydd yn ein meddiant yn gywir ac yn gyfoes;
- Sut i wneud cwyn.

Am fwy o wybodaeth am y materion uchod neu unrhyw ymholiadau eraill, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

Y Swyddog Diogelu Data
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
3ydd Llawr, Pwynt Post 3.20
10 South Colonnades Canary Wharf
Llundain
E14 4PU
E-bost: DPO@justice.gov.uk

**Cwynion**

Pan ofynnwn i chi am wybodaeth, fe geisiwn lynu at y gyfraith. Os teimlwch fod eich gwybodaeth wedi'i chamddefnyddio gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder neu GLITEM, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth am gyngor annibynnol ar ddiogelu data. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 0303 123 1113
www.ico.org.uk